

# Y Cwricwlwm i Gymru

## Addysg feithrin i blant 3 a 4 oed:
## Canllaw i rieni a gofalwyr

# Cynnwys


Beth yw addysg feithrin? 3

Pryd fydd fy mhlentyn yn elwa o addysg feithrin? 4

Sut mae addysg feithrin yn cael ei chyflwyno? 5

Beth yw manteision addysg feithrin i fy mhlentyn? 6

Beth yw dysgu trwy chwarae? 7

A fydd fy mhlentyn yn dysgu darllen ac ysgrifennu? 8

Sut mae dod o hyd i le mewn addysg feithrin? 9

Sut bydd anghenion a datblygiad fy mhlentyn yn cael eu hasesu? 10

Ble gallaf ddod o hyd i wybodaeth am gymorth arall sydd ar gael i'm plentyn? 11



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50518, ISBN digidol 978-1-83625-235-1

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Beth yw addysg feithrin?



**Addysg feithrin yw'r cyfnod mae plant tair a phedair oed yn ei dreulio mewn addysg, naill ai mewn ysgol neu mewn lleoliad gofal plant a ariennir gan eich awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin, cyn iddynt ddechrau addysg statudol.**


Mae hwn yn gyfnod pwysig iawn ym mywyd eich plentyn. Mae'n gosod y sylfeini ar gyfer eu haddysg a'u datblygiad corfforol ac emosiynol yn y dyfodol. Dyma pam mae addysg feithrin yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

**Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael ar wefan eich awdurdod lleol.**

# Pryd fydd fy mhlentyn yn elwa o addysg feithrin?

**Mae’n rhaid i awdurdodau lleol drefnu bod lle addysg feithrin rhan-amser wedi’i ariannu ar gael (o leiaf 10 awr yr wythnos) ar gyfer plant tair a phedair oed, yn dibynnu ar ba bryd y mae eu pen-blwydd yn disgyn. Mae’r tabl isod yn dangos pryd fydd y lle hwnnw ar gael i’ch plentyn.**

| Pen-blwydd y plentyn | Pryd gall fy mhlentyn dderbyn lle meithrin a ariennir? |
|---|---|
| **1 Medi i 31 Rhagfyr** | Dechrau’r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr |
| **1 Ionawr i 31 Mawrth** | Dechrau’r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill |
| **1 Ebrill i 31 Awst** | Dechrau’r tymor ar neu ar ôl 1 Medi |



# Sut mae addysg feithrin yn cael ei chyflwyno?

**Fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain a chwricwlwm ar gyfer lleoliadau gofal plant sy'n darparu addysg feithrin.**

Mae datblygiad plant yn ganolog i'r holl ddarpariaeth a bydd yn cefnogi dysgu a datblygiad plant p'un a ydynt yn mynychu ysgol neu leoliad meithrin a ariennir nas cynhelir. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i fod yn gynhwysol i'n holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, a dylai eich plentyn gael y cymorth sydd ei angen arno i wneud cynnydd ar ei daith ddysgu.

Bydd yr ymagwedd hon hefyd yn helpu i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'ch plentyn o leoliad meithrin i amgylchedd yr ysgol.

**Gwyliwch y fideo i blant sy'n mynychu addysg feithrin i ddarganfod mwy:**

**Y Cwricwlwm i Gymru: Addysg feithrin ar gyfer plant 3 a 4 oed - Cyflwyniad i rieni a gofalwyr**



# Beth yw manteision addysg feithrin i fy mhlentyn?

**Mae addysg feithrin yn galluogi plant i ddysgu trwy chwarae ac fe'i cynhelir dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r cwricwlwm yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i fod yn ganolog i'w ddysgu.**

Bydd diddordebau eich plentyn yn cael eu hystyried, a bydd yn cael ei annog i wneud dewisiadau am ei addysg tra'n cael ei gefnogi gan staff ymroddedig. Bydd staff yn cefnogi eich plentyn ar bob cam o'i addysg. Bydd profiadau dysgu yn ymarferol, yn hwyl ac yn seiliedig ar chwarae. Rydyn ni'n gwybod bod y dull hwn yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.



# Beth yw dysgu trwy chwarae?

**Chwarae yw sut mae plant ifanc yn gwneud synnwyr o'r byd. Mae hwn yn gyfrwng pwerus ar gyfer dysgu sy'n helpu i gefnogi sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol a chorfforol.**

Bydd eich plentyn yn elwa o ddysgu cyfannol ac ystyrlon sy'n cefnogi ei ddatblygiad. Bydd oedolion sy'n galluogi dysgu yn darparu profiadau difyr mewn amgylcheddau effeithiol ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u harsylwadau o blant i gynllunio profiadau go iawn sy'n berthnasol i ddiddordebau eich plentyn a fydd yn cefnogi ei ddatblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar chwarae.

Mae chwarae'n caniatáu i blant ddefnyddio eu menter, cymryd risgiau a dysgu trwy brofi a methu heb ofni methu. Bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn llawer o wahanol fathau o chwarae a allai gynnwys chwarae rôl, chwarae creadigol, chwarae archwiliol a chwarae dychmygus.



# A fydd fy mhlentyn yn dysgu darllen ac ysgrifennu?



**Mae addysg feithrin yn pwysleisio pwysigrwydd sgiliau cyfathrebu da. Bydd plant yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando trwy ryngweithio gyda'r oedolion yn yr ysgol neu leoliad meithrin yn ogystal â'i gilydd.**

Cânt eu cyflwyno i lawenydd straeon a llyfrau a byddant yn cymryd rhan mewn caneuon, rhigymau a chwarae geiriau. Cânt eu hannog i wneud marciau a thynnu lluniau i gyfleu eu meddyliau a'u syniadau. Bydd ganddynt fynediad at ystod eang o adnoddau i'w defnyddio ar amrywiaeth o arwynebau megis sialc ar yr iard, paent a brwshys a marcwyr ar bapur.

Wrth i blant ddatblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu cynnar, efallai y byddant yn dechrau sylwi ar eu henwau, eu llythrennau a'u rhifau eu hunain ac yn eu hadnabod. Y peth pwysicaf yw bod plant yn hyderus i wneud y marciau hyn a siarad amdanynt, a'u bod yn dechrau sylwi ar arwyddion a llythrennau sy'n arwyddocaol iddyn nhw.

# Sut mae dod o hyd i le mewn addysg feithrin?



**Gallwch gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich awdurdod lleol a all roi gwybodaeth a chymorth i chi am leoliadau gofal plant ac ysgolion yn eich ardal sy'n darparu lleoedd rhan-amser ar gyfer addysg feithrin.**

Dyma awgrymiadau ar gyfer dewis y lleoliad meithrin cywir:


- Ewch i ymweld â'r lleoliad gofal plant neu'r ysgol – mae llawer ohonynt yn cynnal diwrnodau agored
- Darllenwch adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn yn **www.estyn.gov.wales**
- Ewch i wefannau'r sefydliadau blynyddoedd cynnar isod i ddarganfod mwy o wybodaeth am y lleoliadau maen nhw'n eu cefnogi
- Blynyddoedd Cynnar Cymru **www.earlyyears.wales/en**
- Mudiad Meithrin **www.meithrin.cymru**
- National Day Nurseries Association **www.ndna.org.uk**
- PACEY (Professional Association for Childcare and Early Years) **www.pacey.org.uk**

# Sut bydd anghenion a datblygiad fy mhlentyn yn cael eu hasesu?

**Mae asesu'n chwarae rhan bwysig wrth gefnogi pob plentyn i wneud cynnydd ar ei gyflymder ei hun, gan sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi a'i herio pan fo angen.**

Nod asesu yw darganfod beth all eich plentyn ei wneud. Bydd yn cael ei gynnal gan ymarferwyr medrus fydd yn arsylwi eich plentyn yn chwarae. Mae asesu parhaus yn rhoi gwell dealltwriaeth o ddatblygiad cyfannol eich plentyn, gan gynnwys sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol a chorfforol. Dylai asesu o ansawdd da nodi plant y gallai fod angen cymorth neu her ychwanegol arnynt i'w helpu i gyrraedd eu potensial.

Mae'n bwysig cydnabod bod cynnydd yn unigryw i bob plentyn. Byddwch yn derbyn gwybodaeth sy'n berthnasol i gynnydd eich plentyn yn ystod ei gyfnod mewn addysg feithrin. Bydd rhagor o wybodaeth am asesu ar gael gan yr ysgol neu leoliad gofal plant a ddewiswch ar gyfer addysg feithrin eich plentyn.



# Ble gallaf ddod o hyd i wybodaeth am gymorth arall sydd ar gael i'm plentyn?

**Rydyn ni eisiau i chi gael sicrwydd bod eich plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.**

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i rieni a gofalwyr plant 3 a 4 oed sy'n byw yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys lleiafswm o 10 awr o addysg gynnar ac uchafswm o 20 awr o ofal plant a ariennir, ond gall amrywio rhwng Awdurdodau Lleol.

Bydd angen i Rieni a Gofalwyr fod yn gyflogedig neu ar gwrs Addysg Uwch neu Bellach i fod yn gymwys.

I weld a ydych chi a'ch plentyn yn gymwys neu i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant ewch i **www.llyw.cymru/cael-30-awr-o-ofal-plant-ar-gyfer-plant-3-4-oed**

Mae **Teulu Cymru** yn dod â gwybodaeth i deuluoedd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru at ei gilydd mewn un lle. Am gymorth ymarferol ac ariannol ewch i **www.llyw.cymru/teulu-cymru** a dilyn Teulu Cymru ar Facebook ac Instagram.

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad rhad ac am ddim, diduedd a chyfredol ar amrywiaeth o bynciau teuluol gan gynnwys addysg yn **www.gwybodaethgofalplant.cymru**.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig adnoddau a chyngor drwy'r rhaglen **'Siarad gyda Fi'** sy'n eich annog i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu eich plentyn.

Mae **Dechrau'n Deg** yn darparu cymorth i blant a theuluoedd o ardaloedd difreintiedig ledled Cymru sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg. Mae gan blant dwy i dair oed hawl i 12.5 awr o ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn, yn unol â'r tymor ysgol. Gall plant cymwys gymryd lleoedd gofal plant o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn ddwy oed tan y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol.